



Cofnodion Cyfarfod 03-09-19 – 7.30pm

Presennol Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Gwenan Roberts, Ceri Leeder, Wendy Williams, Phyllis Purchase, Arthur Williams a Delyth Wynne (Clerc)

Ymddiheuriadau Cynghorydd Geraint Owen, Austin Roberts ac Gwilym Williams

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod. Cydymdeimlwyd gyda Cyng Phyllis ar ei phroffedigaeth diweddar.

2. YMDDIHEURIADAU

Gweler uchod.

3. DATGAN DIDDORDEB

Dim.

4. COFNODION – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (02/07/19 & 18/07/19).

Cynigwyd y cofnodion 02/07/19 yn gywir gan Cyng Phyllis ac eiliwyd gan Cyng Wendy. Cynigwyd y cofnodion 18/07/19 yn gywir gan Cyng John ac eiliwyd gan Cyng Ceri.

5. MATERION YN CODI

• **Arwydd Dehongli:**

Derbyniwyd e-bost gan Ela Fôn Williams, Swyddog Cymuned, Treftadaeth a Diwylliant | Community, Culture & Heritage Officer yn dweud bod yn anffodus ar ol adolygu'r gyllideb a blaenoriaethu a'r sail cyntaf i'r felin bod dim modd ariannu diweddar arwydd Eglwys Bach y tro hwn.

Cafwyd hefyd ymateb gan yr Adran Gynllunio ynglyn a symud yr arwydd i ganol y pentref. Dywedwyd ei bod yn dibynnu ar maint yr arwydd a'i leoliad. Atodwyd ffurflen ymholi i'w yrru yn ol i'r Adran Gynllunio gyda mwy o fanylion.

Penderfynwyd cael pris am adnewyddu'r arwydd a llenwi'r ffurflen ymholiad a'i yrru yn ol i'r Adran Gynllunio.

• **Llwybyr Chwarel y Nant:**

Y Cadeirydd wedi derbyn ffurflen gymhleth i'w lenwi.



- Adlewyrchion wrth yr Eglwys wedi eu cwblhau.
- Gwaith wrth y bont wedi ei wneud – gofynodd y Cadeirydd os oedd pawb yn hapus efo’r gwaith. Marchogion ddim yn defnyddio’r ffordd rwan oherwydd ei fod yn anwastad. ‘Sets’ hanesyddol heb eu rhoi yn ol.

6. CYNLLUNIO

Ymddiriedaeth Genedlaethol – newidiadau i’r caffi - dim sylwadau.

7. ADRODDIAD ARIANNOL

Cyfredol - £8,277.05

Angladdau - £893.20

Cadw - £2,073.99

- Y Clerc i drosglwyddo £500 o’r cyfrif cyfredol i’r cyfrif angladdau.

Sieciau:

Cyfredol:

- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £220.50
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00
- Llogi Neuadd Aberconwy - £12.00

Angladdau:

- Wil Williams (torri glaswellt) - £690.00

8. GOHEBIAETH

- **E-Bost: CBSC – Rhestr o Wasanaethau Cyngorau Tref Chymunedau:**

Gofynnwyd am restr gyfredol o ba wasanaethau mae’r Cyngor Cymuned yn darparu i’w chymuned, neu yn cefnogi’n ariannol ar hyn o bryd a gofynnwyd i’r Cyngor Cymuned gwblhau’r rhestr.

Aeth y Cyngorwyr trwy’r rhestr a penderfynwyd bod y flaenoriaeth ydy tawelu traffig trwy’r pentref.

Y Clerc i anfon y rhestr yn ol.



- **E-Bost: CBSC - Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Conwy 2018-2033 – Ymgynghoriad Ynghylch y Strategaeth a Ffefrir:**

Cafwyd golwg ar y cynllun datblygu lleol Newydd – dim ond Cae Robin ar y cynllun.

9. UNRHYW FATER ARALL

- **Argymhellion yr Awdit:**

- Argymhelliad 1: Y Clerc i adnabod TAW yn glir ar gyfer hawlio yn ôl yng nghofnodion ariannol y Cyngor;
- Argymhelliad 2: Aelodau i gael eu atgoffa o'r angen i ystyried priodoldeb eu cyfranogiad mewn unrhyw benderfyniad lle mae ganddom ddi-ddordeb. Y ffurflen briodol i gael ei llenwi i dystiolaethu bod yr ystyriaeth yma wedi cymryd lle;
- Argymhelliad 3: Y Cyngor i ymgymryd ac asesiad o risg os y bysant yn methu cyflawni eu amcanion (yn gyntaf wedi cytuno a gosod eu amcanion am y flwyddyn i ddilyn);
- Argymhelliad 4: Y Clerc i gymodi y datganiadau banc yn rheolaidd i gofnodion ariannol y Cyngor i wneud yn siwr bod pob incwm a gwariant wedi ei gyfri ac i warchod trag twyll a camymddwyn;
- Argymhelliad 5: Y Cyngor i wneud trefniadau i'r Clerc gael hyfforddiant priodol ymhob agwedd o weinyddiaeth ariannol.

- **Defnydd o Glyphosate:**

Y Clerc i wahodd Simon Billington, Pennaeth Mannau Agored, CBSC i'r cyfarfod mis Hydref/Tachwedd i drafod y mater.

- **Facebook:**

Dangosodd Cyng Ceri llyniau i'r Cynghorwyr o'r safle cymunedol i ddangos faint mor ddefnyddiol ydy'r safle i rann gwybodaeth. Diolchodd y Cynghorwyr i Cyng Ceri am ei gwaith caled gyda'r safle.

- **Petitiwn – cau y parcio a teitho yn Ysbyty Glan Clwyd:**

Penderfynwyd ysgrifennu at yr AC, AS, CBSC a Betsi Cadwalader i ddangos ein cefnogaeth am bryderon ein preswylwyr.

- **Mandad Banc:**

Cynghorwyr Gwenan, Ceri a Geraint i fynd i Banc HSBC Llandudno gyda'u pasbort a trwydded gyrru i lenwi'r mandad.

- **'Himalayan Balsam':**

Cafwyd trafodaeth am y broblem – John and Rachel wedi gwneud dipyn o waith ond dal llawer ar ol.



- **Ffordd Gyfflog:**

Mae'r ffordd yn gul iawn a mae angen mwy o lefydd i basio. Y Clerc ysgrifennu i CBSC i weld os oes posibilrwydd gwneud hyn.

10. DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF

01/10/19, 05/11/19, 03/12/19.

Daeth y cyfarfod i ben am am 9.00 o'r gloch.